Mis Awst 2017

Annwyl ffrindiau

Rydyn ni wedi cyrraedd ail hanner y flwyddyn ysgol yma yn yr Andes a dyma ni yn ysgrifennu i'ch cyfarch unwaith eto. Mae prysurdeb tymor diwethaf, llawenydd y gwyliau gaeaf a gweithgaredd Gŵyl y Glaniad wedi pasio ac rydyn ni yn edrych ymlaen at y gwanwyn.

Ers i ni ysgrifennu ym mis Mai mae nifer o ddiwrnodau pwysig yn hanes yr Ariannin wedi cael eu dathlu: 25 o Fai (y diwrnod y penderfynwyd gofyn am annibyniaeth o Sbaen), 9 Gorffennaf (pedair blynedd wedyn, derbyniwyd y ddogfen oedd yn rhoi annibyniaeth i'r wlad), 23 Mehefin (Diwrnod y Faner) ac wrth gwrs 28 Gorffennaf sef Gŵyl y Glaniad. Er mwyn dathlu pob dyddiad mae seremoni yn yr ysgol ac yn y dref ac mae'r plant wrth eu boddau yn canu ac yn actio, dawnsio ac yn gwisgo gwisgoedd perthnasol. Mae mynychu'r seremonïau fel cael gwers hanes y wlad!

Daeth 2 Mehefin â gwên i wynebau'r plant wrth i'r dynion tân alw i mewn i ddathlu Diwrnod y Dynion Tân. Roedd dosbarth plant 4 oed wedi paratoi rap i ddiolch i'r dynion am eu gwaith ac am ddod i'n gweld. Yn ystod wythnos y Llyfr, daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo fel un o'u hoff gymeriadau o lyfr: fel gwelwch yn y llun mae sawl ffan bach o gomics yn Ysgol y Cwm!

Fel ysgol sydd ddim yn derbyn arian gan Lywodraeth yr Ariannin, rhaid sicrhau bod digon o arian yn dod i mewn trwy beth mae'r rhieni yn talu bob mis i allu talu cyflogau, biliau, siwrans a chant a mil o bethau achlysurol eraill. Er mwyn casglu arian penderfynwyd y byddai teulu'r ysgol yn cynnal gweithgaredd bob mis felly ym mis Mai cynhaliwyd te Cymreig yn yr ysgol gyda'r rhieni a staff yn dangos eu doniau yn y gegin a mwynheuodd dros 100 o bobl te traddodiadol tra disgynnai eira y tu allan!

Ym mis Mehefin cynhaliwyd Mate Bingo, rhywbeth dieithr i drigolion Cymru efallai, lle mae pobl yn mynd a'u mate, diod genedlaethol yr Ariannin, ac yn chwarae Bingo wrth rannu mate gyda'u ffrindiau ac efallai yn prynu teisen neu ddwy hefyd. Casglwyd bron i ARG$35,000 ( tua £ 1,500) a bydd hyn yn ein galluogi i gyrraedd diwedd y mis yn ddiogel diolch byth! Mae´r arian sy´n cael ei godi mewn digwyddiadau fel y Mate Bingo yn cael ei ychwanegu ato gan ein ffrindiau o Gymru – mae sawl ohonoch wedi rhoi´n hael iawn at gronfa Ysgol y Cwm, ac mae pawb sy´n gysylltiedig ag Ysgol y Cwm yn gwerthfawrogi eich cymorth a´ch hymdrechion.

Rydym yn gobeithio cyflogi athro neu athrawes o Gymru ar gyfer y flwyddyn nesaf – bydd hyn yn gymorth mawr mawr i´r ysgol o ran rhannu'r baich pan ddaw 30 o ddisgyblion bach newydd sbon drwy´r drysau ym mis Mawrth, gan gymryd y nifer o ddisgyblion heinio 90. Os hoffech chi ein helpu i dalu costau´r athro neu athrawes, mae ffurflen archeb banc i´w gael ar ein gwefan.

Erbyn hynny, bydd neuadd yr ysgol bron a bod yn barod. Mae´r gwaith adeiladu eisoes wedi cychwyn, ac ein gobaith yn y pendraw yw cael neuadd y tu cefn i´r ysgol bresennol a fydd yn darparu mwy i ddysgu, a rhywle ar gyfer chwaraeon. Bydd y neuadd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cartref parhaol ar gyfer Eisteddfod Trevelin, a bydd cael gweld y plant yn cystadlu ar eu llwyfan eu hunain yn gwireddu breuddwyd!

Derbynion ni ddigon o ymwelwyr yn ystod y cyfnod hefyd: buodd Mared Gruffydd yn gwirfoddoli am dri mis ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddi am fod yn rhan o'n tîm; roedd mwy o ddwylo parod pan ddaeth dau o Brifysgol Caerdydd trwy ysgoloriaeth Santander a hefyd daeth newyddiadurwr rhyngwladol i holi am ein gwaith mewn cyd-destun dathlu 20 mlynedd y Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa – cadwch lygad ar y papurau i weld ei erthygl.

Heb os nag oni bai, y dyddiad mwyaf pwysig i Dalaith Chubut a'i thrigolion ydy Gŵyl y Glaniad, sef y diwrnod pan laniodd y Cymry cyntaf ar draeth unig ar arfordir Môr yr Iwerydd ar 28 o Orffennaf 1865. I gloi wythnos o weithgareddau yn Nhrevelin, cynhaliwyd seremoni yng Nghapel Bethel lle cymerodd pob disgybl rhan wrth ganu a dawnsio a chewch weld hyn trwy fynd i dudalen Facebook Ysgol y Cwm. Ar y diwrnod ei hun roedd baner yr ysgol yn seremoni'r dref cyn i bawb gael y cyfle i fwynhau te traddodiadol yn yr ysgol, eto trwy waith caled y rhieni a'r staff cyn rhedeg yn ôl i Neuadd y Dref er mwyn cymryd rhan mewn cyngerdd i ddathlu'r dyddiad ddechreuodd ein hanes ni yn y Wladfa.

Hoffem gyhoeddi bod llyfr rysetiau dwyieithog o hoff fwydydd plant, rhieni a staff yr ysgol wedi cael ei gyhoeddi ac ar gael yn eich siopau llyfrau yng Nghymru. Mynnwch eich copi o 'Amser Coginio/A Cocinar!' a byddwch yn ein helpu neu ewch i'n wefan www.ysgolycwm.com am fwy o newyddion am ein stori ni.

Dymuniadau gorau a than y tro nesaf!

*Cymuned Ysgol y Cwm*

August 2017

Dear Friends

We're now in the second half of our academic year in the Andes and are writing to greet you once again. The busyness of the last part of the year, the happiness of the winter holidays and all the activity of 'Gŵyl y Glaniad' (The Festival of the Desembarcation) has passed and we are looking forward to the spring.

Since we wrote in May we have celebrated a number of important dates in the history of Argentina: 25th May (the day it was decided to ask for independence from Spain), 9th July (four years later independence was granted), 23rd June (Flag Day) and of course, 28th July Gŵyl y Glaniad. To celebrate each date, we have a ceremony in school and then in the town where the children love singing, acting, dancing and getting dressed up in relevant costumes! Attending these ceremonies is like having a history lesson of Argentina! On the 2nd June the voluntary firemen brought a smile to the pupils' faces when they called in to help celebrate the Firemen's Day. The 4 year old children had prepared a rap to thank the firemen for their work and their visit. During Book Week, the pupils came to school dressed as one of their favourite characters from a book and, as you will see in the photos, we have some young comic book fans in Ysgol y Cwm!

As a self-financing school, we have to ensure that there is enough money coming in to pay wages, bills, insurance and a hundred and one other things. In order to collect some funds, it was decided that the school community would hold a monthly event; and so in May, we made a Welsh tea, with the staff and parents showing off their cookery skills to prepare a tea which was enjoyed by over 100 people as the snow fell outside! In June we held a Mate Bingo, something unusual for the Welsh maybe, where people enjoy a mate (the traditional drink of Argentina) whilst playing Bingo and buying a cake or two! The events raised a combined total of almost ARG$35,000 (around £ 1,500) and this will go long way towards paying for the school´s running-costs.

The money generated from school fund-raisers is supplemented by the generosity of our friends from Wales. Many of you have given generously, and everyone at the school appreciates the efforts made by our overseas friends. Ysgol y Cwm is hoping to employ a teacher from Wales for next year – this will help enormously with regards to sharing the load when 30 brand new pupils start school next March, taking the number of children who attend the school beyond 90. We are currently fund-raising to cover the costs of a new Welsh teacher, and there is a downloadable standing order form available on our Website for anyone who might want to help.

By next March, the new school hall should be ready. Along with providing the school with a small sports area and more teaching space, the hall will also be used as a permanent home for the Trevelin Eisteddfod. - seeing the children of Ysgol y Cwm compete on their very own stage will be a dream come true!

We have received more visitors over the past few weeks: Mared Gruffydd volunteered for three months and we are very grateful to her for being part of our team; there were more helping hands when two Cardiff University students came on their Santander scholarships and we also welcomed an international journalist who was finding out about our work in the context of the celebrations of 20 years of the Welsh Language Project in Chubut. Keep your eyes open for the article in a newspaper near you soon!

Without a doubt, the most important date for the inhabitants of the province of Chubut is Gŵyl y Glaniad, when the first Welsh settlers landed on a lonely Atlantic beach on 28th July 1865. To close a week of educational activity in school, a ceremony was held in the Bethel Chapel, Trevelin, where the whole school took part, singing, dancing and speaking Welsh, and you can see this by looking at the video on our Facebook page for Ysgol y Cwm. On the actual day, the school flag was present in the town ceremony and then people had the chance to enjoy another traditional Welsh tea in school before running back to the Town Hall to take part in the concert to celebrate the date our story began in Patagonia.

We are delighted to announce that our Welsh/Spanish recipe book is now on sale in your local bookshop and if you buy a copy of 'Amser Coginio/A Cocinar!' you will be helping us, as well as getting some authentic Patagonian recipes. Wishing you all well and remember to keep an eye on our website www.ysgolycwm.com for other news.

Dymuniadau gorau and hasta luego!

*Ysgol y Cwm Community*



Mwynhau'r Te Cymreig Gŵyl y Glaniad - Enjoying the Gŵyl y Glaniad Welsh Tea



Canu yng nghyngerdd Gŵyl y Glaniad - Singing in the Gŵyl y Glaniad Concert



Mynd yn yr injan dân! A trip in the fire engine!



Wedi gwisgo fel hoff gymeriad - Dressed as a favourite character



Ms Jones a'i Huganau Bach Cochion! Ms Jones and her Little Red Riding Hoods!




Dathlu Diwrnod y Faner - Celebrating the Day of the Banner